

# Jacob ac Esau

GENESIS PENNOD 25-33

ROEDD ESAU A JACOB YN EFEILLIAID. GAN FOD ESAU WEDI EI ENI YN GYNTAF, ROEDD EU TAD AM ROI **BENDITH ARBENNIG** IDDO.

DOEDD ESAU YN **MALIO DIM** AM Y FENDITH.

TRA BOD ESAU I FFWRDD, FE WNAETH ISAAC, TAD Y DDAU FRAWD, **FENDITHIO JACOB**.



OS CA' I BETH O'R CAWL COCH, FE GEI DI FY MENDITH!

CLYWODD ESAU FOD **JACOB** WEDI CAEL Y FENDITH ARBENNIG.

OND BETH **AMDANA I?**

**BENDITHIA FI** HEFYD, DAD!

PENDERFYNNODD ESAU EI FOD AM **DALU'R PWYTH YN ÔL** I JACOB.

DW I AM **LADD JACOB,** FY MRAWD!





MAE ESAU YN DOD GYDA  
400 O DDYNION!

MAE'N MYND  
I'N LLADD NI  
I GYD!

BETH ALLWN  
NI EI WNEUD?

ROEDD OFN MAWR AR JACOB.


O JEHOFA,  
ACHUB FI O  
AFael ESAU.  
MAE GEN I OFN  
Y BYDD YN  
YMOGOD ARNA I  
A LLADD FY  
NHEULU!

CYN I ESAU GYRRAEDD,  
DOS Â CHANNOEDD  
O FY ANIFEILIAID  
YN ANRHEG IDDO.  
EFALLAI BYDD YN  
GAREDIG WRTHO I.

AR EI FFORDD I WELD ESAU,  
GWELODD JACOB ANGEL.  
BENDITHIODD YR ANGEL JACOB.

ROEDD JACOB YN GWYBOD BOD  
JEHOFA AM EI GADW'N SAFF . . .





WRTH I ESAU AGOSÂU, YMGRYMODD JACOB SAITH GWAITH.



GAN FOD CYMAINT O AMSER WEDI MYND HEIBIO AC ROEDD JACOB WEDI BOD **MOR GAREDIG** I'W FRAWD, DOEDD ESAU DDIM EISIAU LLADD JACOB. **COFLEIDIODD** ESAU A JACOB YN **DYNN** A **CHYMODI**.

### BETH RYDYN NI'N EI DDYSGU O HANES JACOB AC ESAU?

PAM ROEDD ESAU **MOR DDIG** WRTH JACOB?  
*CLIWIAU: GENESIS 27:41; DIARHEBION 14:30.*  
OS YW DY FRAWD NEU DY CHWAER  
YN **DDIG** NEU YN **GAS** WRTHOT TI,  
BETH DYLET **TI** EI WNEUD?  
*CLIW: 1 PEDR 3:8, 9.*

